



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag
Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg



Rhan 7

Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg

Cyhoeddwyd o dan adran 131 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pennod / Cynnwys

1. Rhagarweiniad	2
2. Dyletswyddau Statudol	5
3. Deddfwriaeth Berthnasol	7
4. Egwyddorion Cyffredinol	9
5. Asesu a Chynlluniau Gofal a Chymorth	15
6. Y Broses ar gyfer Ymdrin ag Achos Lle Tybir Bod Oedolyn yn Wynebu Risg	18
Hysbysu ynghylch yr achos lle tybir bod oedolyn yn wynebu risg	18
Ymateb i Hysbysiad	19
Camau Gweithredu Yn Dilyn Ymholiad	25
At ddibenion y canllawiau hyn cymerir bod hysbysiad i'r gwasanaethau cymdeithasol yn golygu atgyfeiriad hefyd	26
Penderfyniad 1: Amddiffyn ar unwaith	26
Penderfyniad 2: Nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ond gall fod ganddo anghenion eraill am wasanaethau gofal a chymorth	26
Penderfyniad 3: - Oedolyn sy'n wynebu risg ac angen camau gweithredu i'w amddiffyn	27
Ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig i bryderon	28
Cwynion	30

1. Cyflwyniad

1. Cyhoeddir y gyfrol hon dan adran 131 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ac unrhyw bartner perthnasol, wrth arfer swyddogaethau dan adrannau 126 i 128 a 130, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.
2. Felly, cyhoeddir y canllawiau hyn sy'n cwmpasu partneriaid ar fyrddau diogelu sy'n gweithio mewn meysydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli gyda chydgytundeb Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n arfer eu swyddogaethau dan adrannau 126 i 128 a 130 roi sylw iddynt. Dylid eu darllen ar y cyd â phennod 1 o gyfrol 1 o Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl sy'n darparu canllawiau dan adran 131 ar y ddyletswydd i hysbysu ynghylch oedolion sy'n wynebu risg.
3. Mae'r gyfrol hon yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd os oes gan unigolyn bryderon ynghylch llesiant oedolyn sy'n wynebu risg¹ (gan gynnwys y rhai sy'n byw oddi cartref); ac yn arbennig pryderon bod oedolyn:
 - yn cael neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
 - yn oedolyn ag anghenion o ran gofal a chymorth;
 - yn methu â'i amddiffyn ei hun rhag cael neu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso o ganlyniad i'r anghenion hynny
4. Nid yw'r cyngor hwn wedi'i fwriadu fel canllaw ymarfer manwl, ond mae'n nodi disgwyliadau eglur ynglŷn â'r ffyrdd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydweithio i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Bydd y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol .
5. Er mwyn cyflawni canlyniadau da ar gyfer oedolion mae angen i bawb sydd â chyfrifoldeb am asesu a darparu gwasanaethau gydweithio yn unol â chynllun gweithredu y cytunwyd arno. Er mwyn cydweithio'n effeithiol, mae angen i sefydliadau a phobl fod yn glir ynghylch;
 - y sail ddeddfwriaethol i'r gwaith;
 - eu rolau a chyfrifoldebau am ddiogelu a hybu llesiant oedolion sy'n wynebu risg;
 - y protocolau a'r gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys y ffordd y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws ffiniau proffesiynol ac o fewn asiantaethau, ac yn cael ei chofnodi;

¹ Mae Adran 126(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "oedolyn sy'n wynebu risg"

- pa sefydliad, tîm neu weithiwr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb arweiniol, ac union rolau pawb arall sy'n gysylltiedig;
- pwysigrwydd sicrhau bod plant, oedolion, aelodau o'r teulu a gofalwyr yn chwarae rhan lawn;
- unrhyw raddfeydd amser a nodir mewn Rheoliadau neu Ganllawiau ar gyfer cwblhau asesiadau, gwneud cynlluniau ac amseriad adolygiadau;
- yr angen i sicrhau, yn unol ag adran 6 o'r Ddeddf, bod yn rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf mewn perthynas â pherson sydd, neu a all fod, ag anghenion am ofal a chymorth, roi sylw, hyd y gellir, i ddymuniadau a theimladau'r unigolyn, a rhoi sylw i ddymuniadau a theimladau'r unigolyn, a rhoi sylw i bwysigrwydd hybu urddas yr unigolyn
- rôl bwysig sefydliadau'r trydydd sector o ran hysbysu ynghylch oedolion sy'n profi niwed neu sy'n wynebu risg o niwed ac o ran amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg.

Polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau

6. Mae'n rhaid i bartneriaid perthnasol sy'n gweithio gydag oedolion sy'n wynebu risg sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant i adnabod arwyddion cam-drin neu esgeuluso; sut i ymateb iddynt; a ble i fynd i gael cyngor a chymorth. Dylai fod ganddynt hefyd ddealltwriaeth eglur am rolau a chyfrifoldebau perthnasol pob partner o ran ymdrin ag achosion unigol. Dylai'r cyfrifoldebau hyn fod ar gael mewn *Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol* sy'n hygyrch, yn hawdd i'w deall ac yn cael eu defnyddio gan yr holl bartneriaid perthnasol.
7. Mae rhai ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol i ddiogelu pobl sy'n byw oddi cartref. Mae datgeliadau ynghylch cam-drin pobl sy'n byw oddi cartref wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith eu bod yn arbennig o agored i niwed mewn lleoliad preswyl. Mae pob math o gam-drin – gan gynnwys cam-drin gan gymheiriaid a bwlio – yn fygythiad mewn lleoliadau sefydliadol.
8. Dylai pob lleoliad y mae pobl yn byw ynddo oddi cartref ddarparu'r un trefniadau diogelu sylfaenol rhag camdriniaeth, a hynny'n seiliedig ar ddull sy'n hybu lles cyffredinol ac yn trin pobl ag urddas a pharch. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ac yn Lloegr gan y Comisiwn Ansawdd Gofal) i sicrhau, ymhlith pethau eraill, bod y trefniadau ar gyfer diogelu pobl yn cyd-fynd â'r rheoliadau priodol a'r safonau gofynnol cenedlaethol.
9. Mae nifer o drefniadau diogelu hanfodol y dylid eu gweithredu ym mhob lleoliad y mae pobl yn byw ynddo oddi cartref, mewn gofal preswyl, lleoliadau iechyd, carchardai, unedau diogel ac unrhyw leoliadau eraill. Lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol, dylai trefniadau diogelu sylfaenol gael sylw penodol mewn contractau gyda darparwyr allanol.

10. Dylai'r trefniadau diogelu hyn gynnwys sicrhau:

- bod pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a bod eu hunan-fri'n cael ei hybu;
- bod y sefydliad yn agored gyda'r byd allanol ac yn wyneb craffu allanol, gan gynnwys bod yn agored gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach;
- bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig, eglur sy'n gyson â gweithdrefnau Byrddau Diogelu ar gyfer yr ardal ac y mae'r holl staff yn ymlynu wrthynt;
- bod staff a gofalwyr wedi cael eu hyfforddi ym mhob agwedd ar ddiogelu a'u bod yn wybodus ynglŷn â sut i weithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu;
- bod gweithdrefnau cwynion yn eglur, yn effeithiol, yn hawdd i'w defnyddio ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl ag anabledau a'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Dylai pobl gael cymorth i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn. Dylai gweithdrefnau ymdrin â chwynion anffurfiol yn ogystal â rhai ffurfiol. Ni fydd systemau nad ydynt yn hybu cyfathrebu agored ynghylch 'mân' gwynion yn ymatebol i rai mawr, a gall patrwm o 'fân' gwynion ddynodi problemau dyfnach o ran rheoli a diwylliant y mae angen ymdrin â hwy. Dylai fod cofrestr cwynion ym mhob lleoliad preswyl sy'n cofnodi'r holl sylwadau neu gwynion, y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy, a'r canlyniadau;
- bod gan bobl fynediad rhwydd at berson dibynadwy y tu allan i'r sefydliad, e.e. aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol, ymwelydd annibynnol neu eiriolwr;
- bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn drylwyr ac yn creu trothwy mynediad uchel i atal y rhai sy'n anaddas i weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg;
- bod polisïau, gweithdrefnau a systemau cymorth eglur yn bodoli i ymdrin â datganiadau o bryder gan staff a gofalwyr ynglŷn â staff neu ofalwyr eraill. Dylai fod gan sefydliadau god ymddygiad sy'n cyfarwyddo staff ynglŷn â'u dyletswydd i'w cyflogwr a'u rhwymedigaeth broffesiynol i godi pryderon dilys ynghylch ymddygiad cydweithwyr neu reolwyr.
- y dylai fod gwarant y gellir galw gweithdrefnau i rym mewn ffyrdd nad ydynt yn peryglu sefyllfa a rhagolygon y 'chwythwr chwiban' ei hun;
- bod parch tuag at amrywiaeth a sensitifrwydd i hil, diwylliant, crefydd, rhywedd, rhywioldeb ac anabledd;
- bod goruchwyliaeth a chymorth effeithiol, sy'n ymestyn i staff dros dro a gwirfoddolwyr; a
- bod staff a gofalwyr yn effro i'r risgiau yn yr amgylchedd allanol yn sgîl pobl sy'n barod i fanteisio ar natur agored i niwed ychwanegol pobl sy'n byw oddi cartref.

11. Fe ysgrifennodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2017 i ddarparu canllawiau polisi ac arfer mewn

perthynas ag ymchwilio i bryderon ynghylch diogelu. Mae'r canllawiau hynny ar gael ar wefan AGC [yma](#).

2. Dyletswyddau Statudol

12. Mae'n **rhaidd** i bartneriaid ar y Bwrdd Diogelu ystyried swyddogaethau a gweithdrefnau'r Bwrdd i gyflawni eu cyfrifoldeb yn adran 139(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Caiff swyddogaethau'r Byrddau Diogelu eu nodi'n ffurfiol yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015².

Dyletswydd i hysbysu ynghylch Oedolion sy'n Wynebu Risg

13. Mae Adran 126(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "oedolyn sy'n wynebu risg" fel oedolyn:-
 - a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;
 - b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac
 - c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
14. Dylai fod pwyntiau cyswllt unigol y gellir eu hadnabod yn glir o fewn yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol i sicrhau bod partner perthnasol yn gallu hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw bryderon yn unol â'r ddyletswydd a nodir yn adran 128 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff partneriaid perthnasol eu diffinio gan adran 162(4) fel:
 - a) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
 - b) unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
 - c) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;
 - d) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner perthnasol i'r awdurdod;
 - e) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;
 - f) ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
 - g) Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;
 - h) unrhyw berson, neu berson o unrhyw ddisgrifiad, y bydd rheoliadau yn ei bennu.

² http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1466/pdfs/wsi_20151466_mi.pdf

15. Os oes gan bartner perthnasol sail resymol dros gredu bod rhywun yn oedolyn sy'n wynebu risg, a'i fod i'w weld fel pe bai yn ardal yr awdurdod lleol, mae'n rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch y ffaith honno. Os yw'r oedolyn sy'n wynebu risg o fewn ardal awdurdod lleol arall mae'n rhaid i'r partner perthnasol hysbysu'r awdurdod arall hwnnw. Wrth bennu ystyr achos rhesymol dros gredu bod rhywun yn oedolyn sy'n wynebu risg nid yw'n angenrheidiol cadarnhau ffaith benodol. Mae amheuaeth resymol yn bodoli lle ceir gwybodaeth a fyddai'n argyhoeddi sylwedydd gwrthrychol bod yr amgylchiadau penodol yn bodoli.
16. Weithiau gall pryderon gael eu hadnabod yn dilyn cwyn, digwyddiad clinigol, chwythu'r chwiban neu fater disgyblu. Lle mae pryderon yn ymwneud ag ansawdd gofal a chymorth mewn lleoliad a reoleiddir dylai gwybodaeth gael ei rhannu'n briodol gyda'r cyrff rheoleiddio perthnasol, megis Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ond nid y rhain yn unig.

Dyletswydd i ymholi

17. Yn ôl Adran 126(2) o Ddeddf 2014, "Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswyllo fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, **rhaid** iddo:-
 - a) gwneud *unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a*
 - b) penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath."
18. Mae tair elfen ar wahân:
 - i. sail resymol dros gredu;
 - ii. gwneud ymholiadau;
 - iii. cofnodi canlyniad yr ymholiadau.
19. Bydd AGC yn cynnal cyswllt agos â'r awdurdod lleol yn ystod camau cychwynnol unrhyw ymchwiliad, i ddeall unrhyw oblygiadau rheoleiddiol ar gyfer y gwasanaeth dan ystyriaeth. Er enghraifft, gall y pryder godi materion ehangach ynghylch y modd y caiff y gwasanaeth hwnnw ei redeg neu ddynodi methiant o ran darparu gofal. Mae cynnal cyswllt yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth, yn nodweddiadol dros y ffôn, i bennu'r angen i AGC fynychu cyfarfodydd strategaeth.

3. Deddfwriaeth Berthnasol

Deddf Cam-drin Domestig (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

20. Ar 29 Ebrill 2015, cafodd Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin a thrais o'r fath ac fe graffwyd yn drylwyr arni trwy'r broses ddeddfwriaethol.

Nod y Ddeddf yw:

- Gwella'r trefniadau i hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, eu hatal ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr;
 - Cyflwyno dull seiliedig-ar-anghenion o ddatblygu strategaethau a fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf ac atebolrwydd cryfach;
 - Sicrhau perchnogaeth ar lefel strategol, trwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol a fydd â rôl o ran cynghori Gweinidogion Cymru a gwella trefniadau cydweithio ymhlith asiantaethau ar draws y sector; a
 - Gwella cysondeb, ansawdd a chydgyssylltiad gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.
21. Dylai fod gan bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Fforwm Cam-drin Domestig a Bwrdd Diogelu Oedolion gysylltiadau wedi'u diffinio'n glir, a ddylai gynnwys trawsaelodaeth a nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin a chydweithio arnynt. Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

22. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Fe wnaeth Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985 weithredoedd anffurfio organau cenhedlu benywod yn drosedd ac eithrio am resymau corfforol a meddyliol penodol.
23. Ym mis Hydref 2003 fe'i disodlwyd gan y Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Mae'r Ddeddf hon yn cryfhau ac yn diwygio deddfwriaeth 1985. Mae'n cadw trosedd anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU ac mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i wladolion y DU neu rai sy'n preswyllo'n barhaol yn y DU gyflawni gweithred anffurfio organau cenhedlu benywod dramor, neu helpu, ategu, cynghori neu gaffael rhywun i gyflawni gweithred

anffurfio organau benywod, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'r arfer yn gyfreithlon. Uchafswm y gosb am gyflawni neu helpu'r trosedd yw pedair blynedd ar ddeg o garchar. Mae polisi ac arfer y DU mewn gwledydd lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn digwydd yn allweddol i atal gweithredoedd anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU gan fod llawer o'r menywod a'r merched sydd mewn perygl yn y DU yn dod o'r gwledydd hyn, ac yn dychwelyd yno i gael triniaeth anffurfio organau cenhedlu benywod.

24. Dylai asiantaethau lleol fod yn effro i'r posibilrwydd o weithredoedd anffurfio organau cenhedlu benywod lle ceir cymunedau neu unigolion y gwyddys eu bod yn cyflawni gweithredoedd o'r fath. Dylai polisi Byrddau Diogelu Oedolion ganolbwyntio ar strategaeth ataliol sy'n cynnwys addysg gymunedol.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

25. Mae masnachu mewn pobl yn cyfeirio at gasgliad o droseddau, sy'n cwmpasu amrywiaeth o wledydd ac yn cynnwys nifer o ddioddefwyr – gan arwain at ddioddefaint sylweddol i'r rhai y masnachir ynddynt. Gall gynnwys camfanteisio ar oedolion sy'n wynebu risg trwy rym, gorfodaeth, bygythiad a defnyddio twyll a gweithredoedd sy'n tramgwyddo ar hawliau dynol megis caethiwed oherwydd dyled, colli rhyddid a diffyg rheolaeth ar lafur rhywun. Gall camfanteisio ddigwydd trwy buteindra a mathau eraill o gamfanteisio rhywiol a thrwy gamfanteisio ar lafur. Mae'n cynnwys symud pobl ar draws ffiniau a hefyd symud a chamfanteisio o fewn ffiniau.

4. Egwyddorion Cyffredinol

Mae systemau diogelu effeithiol yn rhai:

- lle mae canlyniadau personol yr unigolyn yn hysbys a lle mae'n gallu eu cyfleu'n effeithiol;
- lle mae anghenion yr unigolyn yn cael eu rhoi yn gyntaf, fel bod yr oedolyn yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arno cyn bod problem yn gwaethygu;
- lle mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad ag oedolion sy'n wynebu risg wedi'u hyfforddi ac yn effro i'w hanghenion gan gynnwys unrhyw gam-drin posibl neu dybiedig neu risg y byddant yn cael eu cam-drin neu eu esgeuluso;
- lle mae'r holl weithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth briodol mewn ffordd amserol, a lle mae ganddynt fynediad uniongyrchol at gyngor i drafod unrhyw bryderon ynghylch unigolyn;
- lle mae'r holl weithwyr proffesiynol yn gallu defnyddio eu crebwyll arbenigol i wneud anghenion a chanlyniadau personol yr unigolyn yn ganolog i'r system fel y gellir dod o hyd i'r datrysiad cywir iddo;
- lle mae'r holl weithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ffordd amlasiantaethol a chydweithredol i ddiogelu a hybu llesiant oedolyn sy'n wynebu risg a mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r cynnydd mewn perthynas â'r canlyniadau a nodir mewn cynlluniau gofal a chymorth.

Dull cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar unigolion

26. Dylai trefniadau diogelu effeithiol ym mhob ardal ddiogelu gael eu tanategu gan ddwy egwyddor allweddol:
 - **mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb:** er mwyn i drefniadau diogelu fod yn effeithiol mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad chwarae ei ran yn llawn;
a
 - **dull sy'n canolbwyntio ar unigolion:** er mwyn i drefniadau diogelu fod yn effeithiol dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir am y canlyniadau personol y mae'r oedolyn yn dymuno'u cyflawni yn ei fywyd beunyddiol a'r hyn sydd o bwys i'r unigolyn.
27. Ni all yr un gweithiwr proffesiynol unigol fod â darlun llawn o unigolyn neu ei deulu, ac mae'r gallu i weithio ar draws asiantaethau'n hanfodol i feithrin dealltwriaeth well am amgylchiadau'r oedolyn sy'n wynebu risg a'i anghenion o ran gofal a chymorth. Gall perthnasoedd gweithio cryf a dull gweithio

amlasiantaethol atal anghenion rhag gwaethygu a bod o gymorth i adnabod pan fo oedolyn neu aelod o'r teulu'n wynebu risg.

28. Dylai partneriaid perthnasol (adran 162(4) o Ddeddf 2014) ddeall eu dyletswydd statudol i hysbysu'r awdurdod lleol os oes sail resymol dros gredu bod oedolyn yn wynebu risg.
29. Er mwyn sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar unigolion mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gydag oedolyn sy'n wynebu risg ar fater diogelu:
 - weld a siarad gyda'r unigolyn;
 - gwrando ar yr hyn y mae'r unigolyn yn ei ddweud a deall ei ganlyniadau personol³;
 - cymryd barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn o ddifrif;
 - gweithio mewn partneriaeth gyda'r unigolyn wrth benderfynu sut i ddiwallu ei anghenion o ran gofal a chymorth;
 - cymryd camau i hwyluso gallu'r person i gyfranogi boed trwy gymorth i gyfathrebu neu eiriolaeth.
30. Er y dylai ymarferwyr geisio trafod unrhyw bryderon gyda'r unigolyn dan sylw a, lle y bo'n bosibl, ceisio ei gytundeb cyn hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ynghylch pryderon, dim ond lle na fydd yn achosi mwy o risg o niwed i'r unigolyn neu i eraill y dylid gwneud hyn.

Eiriolaeth

31. Mae'r Cod Ymarfer pwrcasol ar Eiriolaeth dan Ran 10⁴ o'r Ddeddf yn nodi'r swyddogaethau lle mae'n ofynnol i awdurdod lleol, mewn perthynas â'r unigolyn, ffurfio barn ynglŷn â sut y gallai eiriolaeth fod o gymorth i bennu a chyflawni canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod barnau ynglŷn ag anghenion am eiriolaeth yn rhan annatod o'r dyletswyddau perthnasol dan y canllawiau statudol hyn.

Penderfyniadau a Gefnogir a Phenderfyniadau Deallus

32. Dylai camau diogelu rymuso'r oedolyn hyd y gellir i wneud dewisiadau ac i ddatblygu ei alluedd ei hun i ymateb iddynt. Mae angen taro cydbwysedd rhwng hawliau i ddiogelwch a hawliau eraill, megis hawliau i ryddid ac annibyniaeth, a hawliau i fywyd teuluol. Ni waeth a oes ganddynt alluedd meddyliol ai peidio, bydd ar oedolion sy'n wynebu risg eisiau cymorth hynod ymwithiol, megis

³ Gweler adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

⁴ [Cod Ymarfer Rhan 10 \(Eiriolaeth\)](#)

gwahardd rhywun o'u cartref, neu ddod â rhywun o flaen ei well. Efallai y byddant yn dymuno cael cymorth mewn ffyrdd llai ymwithiol, megis trwy roi cyngor ynghylch yr opsiynau amrywiol sydd ar gael iddynt a risgiau ac anfanteision yr opsiynau amrywiol hyn.

33. Mae angen i unrhyw ymyrraeth sy'n ymwneud â pherthnasoedd teuluol neu bersonol gael ei hystyried yn ofalus. Mae'n rhaid i'r dull a ddefnyddir ystyried sut i gynorthwyo'r oedolyn i gael y cyfle i ddatblygu, neu gynnal, bywyd preifat sy'n cynnwys y bobl hynny y mae'r oedolyn yn dymuno sefydlu, datblygu neu barhau â pherthynas gyda hwy. Er nad yw perthnasoedd cam-driniol byth yn cyfrannu at lesiant oedolyn, gallai ymyrraethau sy'n cael gwared ar yr holl gyswllt ag aelodau o'r teulu arwain at brofiad sy'n gyfystyr ag ymyrraeth gam-driniol a gall fod perygl eu bod yn torri'r hawl i fywyd teuluol os na ellir eu cyfiawnhau neu os nad ydynt yn gymesur.
34. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o bresenoldeb ffactorau diwylliannol neu nodweddion gwarchoddedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol) a allai arwain at ddeall ar gam bod penderfyniad yn un gwybodus.

Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)

35. Rhaid i'r canllawiau statudol ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gael eu dilyn ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol⁵.
36. Dylid defnyddio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i alluogi "swyddog awdurdodedig", ac unrhyw berson arall a nodir yn y gorchmyn, i siarad gydag oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn breifat, i gadarnhau a yw'r oedolyn yn gallu gwneud penderfyniadau'n rhydd, i asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i gadarnhau a ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

37. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi pum egwyddor statudol sy'n tanategu'r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf, sef:
 1. Mae'n rhaid tybio bod gan berson alluedd oni bai y canfyddir ei fod heb alluedd

⁵ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160909safeguardcy.pdf>

2. Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol i'w helpu i wneid hynny wedi cael eu cymryd a hynny heb lwyddiant
 3. Ni ddylid trin person fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
 4. Mae'n rhaid i weithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, dan y Ddeddf hon er mwyn neu ar ran person sydd â diffyg galluedd gael ei chyflawni, neu ei wneud, er budd pennaf y person
 5. Cyn y cyflawnir y weithred, neu y gwneir y penderfyniad, mae'n rhaid ystyried a all y diben y mae'i angen ar ei gyfer gael ei ateb yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu'n llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person
38. Dylai'r holl ystyriaethau a phenderfyniadau o ran diogelu ystyried gofynion cyfreithiol y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Cod Ymarfer cysylltiedig.⁶ Mae Pennod 14 yn arbennig yn nodi "Pa ddulliau amddiffyn sy'n bodoli ar gyfer pobl nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain".
39. Mae'r Cod Ymarfer statudol ar gyfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a ddiwygiwyd yn 2016) yn rhoi arweiniad ym Mhennod 13 ar y berthynas rhwng y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid⁷

Gofynion o ran y Gymraeg

40. Mae'n **rhaid** i'r broses gydnabod cysyniad anghenion o ran iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod egwyddor y cynnig gweithredol yn cael ei sefydlu fel rhan annatod o ymarfer. Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod â dull rhagweithiol ac y dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn gallu cael gwasanaethau yn ei iaith ei hun trwy gydol y broses o adnabod a diwallu anghenion o ran gofal a chymorth.
41. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu gwneud yn rhan o gynllunio a darparu a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy Na Geiriau)⁸.

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/mental-capacity-act-code-of-practice>

⁷ <http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

⁸ Mwy Na Geiriau – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol: <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

42. Mae iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei gael a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond trwy wneud hyn y gall roi gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol.

Rhannu Gwybodaeth

43. Mae'n rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, o 25 Mai 2018 ymlaen Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE, a dyletswydd cyfrinachedd dan y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Dan amgylchiadau eithriadol, gall gwybodaeth bersonol gael ei rhannu'n gyfreithlon heb gydsyniad lle ceir gofyniad cyfreithiol neu lle mae'r gweithiwr proffesiynol yn ystyried mai dyna sydd orau er lles y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal eraill rhag cael eu cam-drin neu rhag dioddef niwed difrifol

Cyfrinachedd

44. Mae dyletswydd cyfrinachedd ar ymarferwyr. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn ddyletswydd lwyr a gellir ei thorri os mai dyma sydd orau er lles yr unigolyn neu er lles y cyhoedd yn gyffredinol.
45. Dylai ymarferwyr wastad ceisio bod yn agored gyda'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy o ran yr amgylchiadau lle gallai fod angen iddynt rannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.
46. Ni ddylai anawsterau o ran gweithio o fewn egwyddor cynnal cyfrinachedd oedolyn arwain at fethu â gweithredu i amddiffyn yr oedolyn neu eraill rhag cael eu cam-drin neu eu niweidio.

Chwythu'r chwiban/codi pryderon (Gweler hefyd Pennod 3)

47. Dylai fod gan bob sefydliad sy'n gweithio gydag oedolion weithdrefnau eglur ar gyfer chwythu'r chwiban/codi pryderon a dylai'r holl staff ddeall y weithdrefn ar gyfer hysbysu ynghylch y sefydliad neu aelod arall o staff.
48. Mae dyletswydd ar yr holl staff/ ymarferwyr i gael eu gwneud yn ymwybodol y gallant fynd at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, yn annibynnol, i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch cam-drin neu niwed ac y dylent wastad gwneud hynny yn yr achosion canlynol;
- os oes ganddynt bryderon y gallai eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu berchennog fod yn gysylltiedig;
 - os oes ganddynt bryderon y gallai eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu berchennog beidio â chymryd y mater o ddifrif a/neu weithredu'n briodol i amddiffyn y plentyn; neu

- os ydynt yn ofni bygythion a/neu os oes ganddynt bryderon uniongyrchol am eu diogelwch hwy eu hunain neu ddiogelwch y defnyddiwr gwasanaethau
49. Dylai pob honiad ynghylch cam-drin neu esgeuluso oedolion gan weithiwr proffesiynol, aelod o staff, gofalwr proffesiynol neu wirfoddolwr gael ei gymryd o ddifrif a'i drin yn unol â gweithdrefnau cyson.
50. Mae gan Fyrddau Diogelu gyfrifoldeb am sicrhau bod gweithdrefnau rhyngasiantaethol effeithiol yn bodoli ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio gydag oedolion a phlant, a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithdrefnau hynny.

Gwasanaethau Hygyrch

51. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy dan Ran 2⁹ o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn hygyrch i unigolion a gweithwyr proffesiynol fel eu bod yn gallu dod o hyd i'r cymorth y mae ei angen arnynt yn gyflym ac yn rhwydd. Dylai unrhyw un sydd â phryderon bod oedolyn yn wynebu risg allu ceisio cyngor a hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddiymdroi trwy'r gwasanaeth hwn.

Gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd

52. Mae gan y cyhoedd rôl hollbwysig o ran amddiffyn oedolion trwy adnabod ac atal achosion o gam-drin. Mae gan yr holl asiantaethau a sefydliadau gyfrifoldeb am sicrhau bod gan y cyhoedd lefel dda o ymwybyddiaeth am gam-drin, esgeuluso a niwed a sut y gellir ac y dylid hysbysu ynghylch pryderon. Dylai fod gan yr holl bartneriaid perthnasol amrywiaeth o wybodaeth gyfredol a threfniadau eglur i sicrhau bod pobl yn gwybod:
- sut i gysylltu â hwy;
 - beth allant ei ddisgwyl o ran cael ymateb.

Honiadau yn erbyn pobl mewn swyddi cyfrifol

53. Dylai fod gan bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth cyffredinol, bolisiau eglur ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio, am dâl neu'n ddi-dâl, gydag oedolion ag anghenion gofal a chymorth. Dylai bolisiau o'r fath wahaniaethu'n eglur rhwng honiad, pryder ynghylch ansawdd y gofal neu ymarfer neu gŵyn.
54. Er bod ffocws diogelu ar ddiogelu un oedolyn neu fwy a adnabuwyd ag anghenion gofal a chymorth, ceir achlysuron pan hysbysir ynghylch

⁹ Pennod 5 – [Cod Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)

digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud ag oedolyn sy'n wynebu risg ond sy'n dynodi, serch hynny, y gallai person fod yn achosi risg i oedolion, megis lle nad oes ar yr oedolyn angen gofal a chymorth, lle mae'n gallu ei amddiffyn ei hun, ond lle mae ymddygiad yr oedolyn arall yn achosi pryder serch hynny, yn enwedig pan fo'r oedolyn hwnnw mewn swydd gyfrifol.

55. Os yw sefydliad yn symud unigolyn (gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr di-dâl) o waith gydag oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth (neu os byddai wedi, pe na bai'r person wedi gadael yn gyntaf) am fod y person yn achosi risg o niwed i oedolion, mae'n rhaid i'r sefydliad wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae methu â gwneud atgyfeiriad heb reswm da yn drosedd. Ni ddylid ymdrin ar wahân â honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio gydag oedolion sy'n wynebu risg. Dylai unrhyw gamau gweithredu cyfatebol sy'n angenrheidiol i ymdrin â lles oedolion ag anghenion gofal a chymorth gael eu cymryd heb oedi ac mewn modd cydgysylltiedig, i atal yr angen am ddiogelu pellach yn y dyfodol.
56. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gysylltu'n effeithiol â'r heddlu ac asiantaethau eraill i fonitro hynt achosion a sicrhau yr ymdrinnir â hwy mor gyflym â phosibl, yn gyson â phroses drylwyr a theg.

5. Asesu a Chynlluniau Gofal a Chymorth

Asesu

57. Mae Adrannau 19 a 24 o Ddeddf 2014 yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdod lleol i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth ac anghenion gofalwr am gymorth. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015¹⁰ yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer asesiadau o'r fath. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 3¹¹ o Ddeddf 2014 yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr.
58. Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 o'r Ddeddf yn gymwys pan fo amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei niweidio. Gall yr asesiad ddechrau o'r adeg pan hysbysir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Gall yr asesiad bara trwy gydol y broses a dylid ei gwblhau gyda'r lefel briodol o frys yn ôl yr achos.
59. Dylai asesiad ddwyn ynghyd wybodaeth gymesur a gasglwyd gan yr oedolyn a'i deulu neu ofalwr a gweithwyr proffesiynol perthnasol gan gynnwys gweithwyr iechyd, yr heddlu, y trydydd sector a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae gan sefydliadau'r trydydd sector rôl bwysig o ran hysbysu ynghylch oedolion sy'n wynebu risg a'u hamddiffyn. Dylai'r asesiad ar gyfer oedolyn sy'n wynebu risg gynnwys pwyslais sylweddol ar gofnodi'r risgiau yn y 5 elfen allweddol trwy'r sgwrs ynglŷn â'r hyn sydd o bwys gyda'r unigolyn. Caiff y 5 elfen allweddol eu nodi yng [Nghod Ymarfer Rhan 3](#).
60. Mae asesiad o ansawdd uchel yn un lle caiff risgiau eu hadnabod a lle caiff yr asesiad ei ddiwygio trwy gydol y broses. Mae'n un o nodweddion ymarfer medrus bod ymarferwyr yn ailystyried eu tybiaethau yng ngoleuni tystiolaeth newydd ac yn cymryd camau gweithredu i ddiwygio'u penderfyniadau er budd pennaf yr unigolyn. Y nod yw gweithio gyda'r unigolyn i adnabod anawsterau a ffactorau risg yn ogystal â datblygu darlun o gryfderau a ffactorau amddiffynnol.
61. Dylai pob asesiad gynnwys dadansoddiad clir. Dylai'r ymarferydd sy'n gweithio gyda'r unigolyn ddadansoddi'r holl wybodaeth a gasglwyd o'r asesiad i benderfynu ynghylch natur a lefel yr anghenion am ofal a chymorth a sut y gellir cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn.

¹⁰ [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Asesu\) 2015](#)

¹¹ [Cod Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#)

62. Os yw'n ymddangos i awdurdodau lleol yn ystod asesiad gofal a chymorth bod yr unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso mae'n rhaid iddynt benderfynu gyda'r oedolyn dan sylw pa gam gweithredu, os o gwbl, sy'n angenrheidiol a chan bwy. Lle mae gan oedolyn anghenion o ran gofal a chymorth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol barhau i gynnal asesiad anghenion a phenderfynu a oes ganddo anghenion cymwys ac, of felly, sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu.
63. Dylai'r asesiad ar gyfer gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymholiad diogelu ac ni ddylai'r ymholiad amharu ar amseroldeb y broses asesu nac ar ddiwallu anghenion cymwys gan yr awdurdod.

Y Cynllun Gofal a Chymorth

64. Mae Adran 54 o Ddeddf 2014 yn amodi bod yn rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol iddo ddiwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys anghenion y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol eu diwallu i amddiffyn oedolyn rhag cael neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 4¹² o Ddeddf 2014 yn nodi'r broses y dylai'r awdurdod lleol ei defnyddio i ddarparu cynlluniau gofal a chymorth a'u hadolygu'n gyson ar gyfer pobl a chanddynt anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra, ac ar gyfer pobl lle ymddengys i'r awdurdod lleol ei bod yn angenrheidiol diwallu anghenion y person er mwyn amddiffyn y person rhag cael neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Bydd y Cynllun Gofal a Chymorth dan Ran 4 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer oedolyn sy'n wynebu risg. Gellir cyfeirio at hwn fel Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth hefyd.

65. Mae'n rhaid i gasgliadau unrhyw ymholiadau a wneir pan greidir bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg gael eu cofnodi yn y cynllun gofal a chymorth dan Ran 4 o Ddeddf 2014. Efallai y bydd gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth yn barod y dylid ei adolygu yn dilyn canlyniad yr ymholiadau i adlewyrchu unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud. Os nad oes cynllun gofal a chymorth yn bodoli'n barod dylid cynnal asesiad dan Ran 3 o'r Ddeddf a sefydlu cynllun gofal a chymorth.
66. Dylai'r cynllun gofal a chymorth gynnwys yr holl elfennau o gynllun sy'n ofynnol dan Ran 4 ond rhoi pwyslais ar amddiffyn neu reoli risg i gynorthwyo'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Gall hyn gynnwys camau gweithredu megis:
- y camau gweithredu y bwriedir eu cymryd i sicrhau diogelwch yr unigolyn yn

¹² [Cod Ymarfer Rhan 4 \(Diwallu Anghenion\)](#)

y dyfodol;

- unrhyw gymorth, triniaeth neu therapi a ddarperir gan gynnwys eiriolaeth barhaus;
- unrhyw addasiadau y mae eu hangen i'r ffordd y darperir gwasanaethau;
- unrhyw strategaeth barhaus ar gyfer rheoli risg fel y bo'n briodol;
- unrhyw gam gweithredu y bwriedir ei gymryd mewn perthynas â'r unigolyn neu'r sefydliad sydd wedi achosi'r pryder, cyfrifoldeb am y cam gweithredu hwn a sut y bwriedir hysbysu'r oedolyn yn gyson;
- sut orau i gefnogi'r oedolyn trwy unrhyw gam gweithredu y bydd yn eu cymryd i geisio cyfiawnder neu iawn.

67. Pan fo cynllun gofal a chymorth yn cynnwys elfennau i amddiffyn yr unigolyn rhag risg dylai'r gweithiwr proffesiynol fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r cynllun bob hyn a hyn yn ôl yr hyn sy'n briodol o ystyried lefel y risg.

6. Y Broses ar gyfer Ymdrin ag Achos Lle Tybir Bod Oedolyn yn Wynebu Risg

68. Bydd prif ffocws y canllawiau canlynol ar y broses ar gyfer hysbysu ynghylch y risg o gam-drin neu esgeuluso a'i reoli. Dylai'r holl bartneriaid perthnasol fod yn effro i anghenion llesiant a diogelwch oedolyn sy'n wynebu risg a gwybod:
- â phwy y dylid cysylltu dan ba amgylchiadau;
 - pa ffynonellau sydd ar gael ar gyfer cael cyngor ac arbenigedd pellach; a hefyd; a hefyd
 - pryd a sut i hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol
69. Dylai unrhyw bryderon ynghylch llesiant oedolyn wastad cael eu cofnodi'n ysgrifenedig, gan gynnwys a gymerwyd camau gweithredu pellach ai peidio. Dylai hynny gynnwys cofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd gan bwy a gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn.
70. Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r camau gweithredu y dylai gweithwyr proffesiynol eu cymryd wrth gydweithio i asesu oedolion sy'n wynebu risg a rhoi gofal a chymorth iddynt.

Hysbysu ynghylch yr achos lle tybir bod oedolyn yn wynebu risg

Bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch neu amheuaeth o drosedd

71. Os oes gan unrhyw un bryderon ynghylch perygl sydd ar fin digwydd i oedolyn neu os oes amheuaeth y gall fod trosedd wedi digwydd dylai fynd ati ar unwaith i hysbysu'r canlynol yn uniongyrchol:
- yr heddlu, a hynny'n ddiymdroi, er mwyn amddiffyn y bobl hynny rhag niwed difrifol sydd ar fin digwydd;
 - y gwasanaeth 999 os oes angen sylw meddygol ar frys

Gwneud yr Hysbysiad

72. Gall unrhyw un hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol ynghylch cam-drin neu esgeuluso gwirioneddol, honedig neu dybiedig a hynny dros y ffôn, trwy'r e-bost neu yn ysgrifenedig.
73. Mae'n rhaid cyflwyno pob hysbysiad diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol, a'r heddlu lle credir bod trosedd wedi cael ei gyflawni, cyn gynted â phosibl ac o fewn un diwrnod gwaith i ganfod problem.

74. Lle caiff gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol eu hysbysu dros y ffôn, dylai'r sawl sy'n gwneud yr hysbysiad gadarnhau'r hysbysiad yn ysgrifenedig.
75. Ar ôl cyflwyno'r hysbysiad cychwynnol yn ysgrifenedig, os nad yw'r sawl sy'n gwneud yr hysbysiad wedi cael cydnabyddiaeth o fewn 7 niwrnod gwaith dylai wastad gysylltu eto â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Gall y camau nesaf fod ar ffurf:
- trafodaeth gydag unrhyw weithiwr proffesiynol/gwasanaeth sy'n atgyfeirio;
 - ystyried yr wybodaeth a ddelir mewn cofnodion presennol, gan gynnwys cynlluniau gofal a chymorth, asesiadau risg sydd ar gael; neu
 - drafodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill, fel sy'n angenrheidiol (gan gynnwys yr heddlu, lle gall fod trosedd wedi cael ei gyflawni yn erbyn oedolyn neu eraill neu lle gall fod unrhyw risgiau parhaus).
76. Dylid ceisio cytundeb yr unigolyn cyn trafod hysbysiad amdano gydag asiantaethau eraill, oni bai y byddai ceisio cytundeb ynddo'i hun yn gallu achosi risg posibl o niwed i unigolyn neu eraill neu nad yw'n meddu ar alluedd, neu oni bai ei bod yn well peidio â gwneud hynny er budd y cyhoedd.
77. Pryd bynnag y bydd achos yn cael ei atgyfeirio at awdurdodau lleol oherwydd pryderon ynghylch oedolyn sy'n wynebu risg sy'n gyfystyr neu a allai fod yn gyfystyr â throsedd mae'n rhaid iddynt drafod yr achos gyda'r heddlu. Os yw'r atgyfeiriad yn gyfystyr â honiad o fethiant safonau gofal neu dorri rheoliad gan ddarparwr rheoledig neu asiantaeth statudol dylent drafod gyda'r corff rheoleiddio perthnasol, e.e. AGC neu AGIC.
78. Mae'n rhaid cofnodi pob hysbysiad ynghylch oedolyn sy'n wynebu risg a dangos y gwerthusiad a wnaed a'r casgliad y daethpwyd iddo gan gynnwys yr holl wybodaeth a gasglwyd a'r rhesymeg dros unrhyw benderfyniad i symud ymlaen, neu beidio â symud ymlaen, i gynnal ymholiad. Dylai'r wybodaeth gael ei chofnodi mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod ar gael yn y dyfodol i oleuo unrhyw adroddiadau pellach a geir ac at ddibenion archwilio a chasglu data.

Ymateb i Hysbysiad

79. Ym mhob achos bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr wybodaeth yng nghydestun y sefyllfa sydd wedi arwain at yr hysbysiad ac asesu'r wybodaeth sydd wedi dod i sylw (nad yw'n hysbys ar hyn o bryd o bosibl) i benderfynu a yw'r pryderon a godir yn sail resymol dros gredu bod oedolyn (neu oedolion eraill neu blant) yn wynebu risg neu y gallai wynebu risg.
80. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r ymarferydd sy'n gwneud yr hysbysiad fod yn glir ynglŷn â'r canlynol a'u cofnodi'n ysgrifenedig:
- y camau gweithredu arfaethedig, neu na fydd unrhyw gamau gweithredu pellach yn cael eu cymryd;
 - graddfeydd amser;
 - pwy fydd yn cymryd y camau gweithredu/rolau a chyfrifoldebau;

- yr hyn a fydd yn cael ei ddweud wrth yr unigolyn neu eraill am yr atgyfeiriad, gan bwy a phryd;
 - unrhyw bryderon sydd gan yr hysbyswr ynghylch canlyniadau gwneud yr hysbysiad iddo ef ac eraill.
81. Lle mae awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd camau gweithredu pellach, neu'n ailgyfeirio'r achos at ffynonellau eraill sy'n cynnig cymorth mwy addas, dylid rhoi adborth am y penderfyniad a'r rhesymau drosto i'r sawl a gyflwynodd yr hysbysiad.
82. Dylai gwrthrych unrhyw hysbysiad a/neu ei gynrychiolydd gael ei hysbysu'n briodol ynghylch yr hysbysiad a'r penderfyniad sy'n deillio ohono. Os bydd yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn anghytuno â'r broses a ddilynwyd gan yr awdurdod lleol ac os na ellir datrys y mater dylid ei atgyfeirio at broses gwynion yr awdurdod lleol¹³.
83. Os nad yw hysbysiad yr awdurdod lleol yn arwain at ymholiad dan adran 126(2) o Ddeddf 2014 gall yr unigolyn gael ei hysbysu, yn uniongyrchol neu drwy law'r gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud yr hysbysiad, ynghylch unrhyw gymorth arall sydd ar gael trwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Gall hyn arwain at asesiad o'i anghenion o ran gofal a chymorth dan Ran 3 o Ddeddf 2014.

Os nad yw'r oedolyn yn dymuno bod unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd

84. Mae cydsyniad yr oedolyn yn ffactor arwyddocaol wrth benderfynu pa gam gweithredu i'w gymryd mewn ymateb i bryder neu honiad. Efallai y bydd oedolion ag anghenion o ran gofal a chymorth yn gallu eu hamddiffyn eu hunain rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef camfanteisio gan eraill ac nid yw'n anorfod nad ydynt yn gallu eu hamddiffyn eu hunain oherwydd eu hoedran, eiddilwch neu anabled. Dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, gall angen yr oedolyn am ofal a chymorth effeithio ar ei allu i'w amddiffyn ei hun. Gall yr anghenion hyn effeithio ar allu unigolion i wneud ac arfer dewisiadau deallus heb bwysau neu orfodaeth. Mae angen crebwyll proffesiynol da lle mae unigolyn yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin a lle mae ar yr unigolyn angen gofal a chymorth. Rhaid ystyried galluedd, y tebygolrwydd o orfodaeth, a natur ac effaith yr anghenion.
85. Er y dylai gweithwyr proffesiynol wastad gofnodi a cheisio parchu dymuniadau personol ac annibyniaeth yr oedolyn, dan rai amgylchiadau gellir diystyru'r dymuniadau hyn, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:
- dyletswydd partneriaid perthnasol i hysbysu;

¹³ <http://gov.wales/topics/health/socialcare/complaints/?lang=cy>

- nid yw'r oedolyn y mae'r pryderon yn ymwneud ag ef yn meddu ar alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol
- mae risg mawr i iechyd a/neu ddiogelwch yr unigolyn;
- gall fod risg i eraill, gan gynnwys plant, pobl ifanc neu oedolion eraill;
- ceir amheuaeth o drosedd neu efallai fod trosedd wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr oedolyn;
- mae'r pryderon yn ymwneud â methiant gofal, neu achos o dorri rheoliad neu god ymddygiad proffesiynol;
- mae gwasanaethau cymdeithasol oedolion, Byrddau Iechyd Lleol neu asiantaeth arall yn cefnogi oedolyn neu'n gweithio gydag oedolyn yr effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arno gan fater neu ddigwyddiad sydd wedi achosi niwed;
- credir bod unigolyn yn achosi risg oherwydd rhywbeth a wnaeth neu na wnaeth.

Dyletswydd i wneud ymholiadau

86. Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (pa un a yw'n preswyllo yno fel arfer ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, mae adran 126(2) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud pa bynnag ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau ac, os felly, pa gamau a chan bwy.
87. Yn fras mae tri cham i ymholiadau:
- i. **sgrinio:** i wirio cywirdeb ffeithiol cyffredinol unrhyw atgyfeiriad;
 - ii. **gwerthusiad cychwynnol:** bydd hyn yn cynnwys casglu, adolygu a choladu gwybodaeth;
 - iii. **penderfynu:** O ystyried canlyniad y cam sgrinio/y gwerthusiad cychwynnol beth, os o gwbl, ddylid ei wneud? Gall hyn gynnwys cychwyn ymchwiliad gan un neu sawl asiantaeth.
88. Ni ddylai ymholiadau gael eu rhuthro, ond dylid pennu graddfeydd amser. Dylai ymholiad gael ei gwblhau fel arfer o fewn SAITH niwrnod gwaith i'r atgyfeiriad. Ni fydd hyn yn atal camau gweithredu rhag cael eu cymryd ar unwaith pan fo hynny'n angenrheidiol i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Os bydd ymholiad yn cymryd mwy na saith diwrnod, dylid cofnodi'r rhesymau. Dylai'r awdurdod lleol fonitro cynnydd gyda'r ymholiad os yw asiantaeth arall yn gwneud ymholiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â'r graddfeydd amser i osgoi oedi. Nid yw'r raddfa amser saith niwrnod yn newid lle mae'r awdurdod lleol yn peri i'r ymholiad gael ei wneud gan asiantaeth arall.
89. Mae ymholiadau'n cwmpasu ystod o weithgarwch ac nid ydynt yr un fath yn union o anghenraid. Mae ffurf yr ymholiadau'n dibynnu ar ddisgresiwn yr awdurdod lleol, yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael iddo ac

amgylchiadau'r achos unigol. Dylai awdurdodau lleol gofnodi'n ysgrifenedig pam eu bod yn ystyried bod yr ymholiadau y maent yn eu gwneud, a ffurf yr ymholiadau hynny, yn angenrheidiol. Ymarferion casglu gwybodaeth yw ymholiadau yn ôl eu natur yn hytrach nag ymchwiliad a gomisiynir yn ffurfiol.

90. Gellir cynnal ymholiadau yn y cyfnod cyn y cyfarfod strategaeth; nid yr ymholiadau yw'r rhan ymchwiliol o'r broses. Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol gydag ymwneud gan yr heddlu er mai dyna fydd y canlyniad o bosibl.
91. Dylai asesiad o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn dan Ran 3 o'r Ddeddf ddechrau cyn gynted ag yr ymddengys fod gan yr unigolyn anghenion am ofal a chymorth. Gall hwn gydredeg â'r ymholiad a bod yn rhan annatod ohono.
92. Gall yr awdurdod lleol wneud yr ymholiadau ei hun, neu os mai asiantaeth arall sydd yn y sefyllfa orau i gynnal ymholiadau gall yr awdurdod lleol beri iddynt gael eu gwneud gan gorff arall. Gellir gofyn i bartneriaid perthnasol gynnal ymholiadau ar ran yr awdurdod lleol, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â cheisiadau o'r fath oni bai bod gwneud hynny'n anghydnaws â'u dyletswyddau hwy eu hunain. Efallai y bydd amgylchiadau lle gallai eraill gynorthwyo, er enghraifft sefydliad yn y trydydd sector neu sefydliad annibynnol sy'n cefnogi'r person.
93. Mae'r ddyletswydd i bennu natur yr ymholiadau sy'n ofynnol yn aros gyda'r awdurdod lleol hyd yn oed lle mae corff arall yn cynnal yr ymholiadau.
94. Dylid enwi ymarferydd arweiniol ar y cam hwn i fod â throsolwg ar yr achos a dal i weithredu fel y pwynt cyswllt unigol. Os oes asesiad wedi cychwyn, y cydgyssylltydd asesu arweiniol ddylai weithredu fel yr ymarferydd arweiniol.
95. Wrth benderfynu ynghylch natur yr ymholiadau, dylai'r awdurdod lleol ystyried nifer o ffactorau:
 - hawl y person y credid ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg i wrthod cyfranogi. Nid yw gwrthod cyfranogi yn rhyddhau'r awdurdod lleol yn awtomatig o'i ddyletswydd, ond gall leihau effeithiolrwydd yr ymholiad.
 - bydd natur barhaus y ddyletswydd o gymorth mewn ymholiadau lle ceir gorfodaeth neu ddylanwad gormodol;
 - canlyniadau personol, dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
 - y posibilrwydd nad yw'r oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg yn gwneud penderfyniadau'n rhydd;
 - pa un a oes angen cynnwys eiriolwr;
 - yr angen i gynnal yr ymholiad yn sensitif a chan achosi cyn lleied â phosibl o drallod i'r person ac eraill (er enghraifft gofalwyr ac aelodau o'r teulu);
 - pa un a oes gan y cam-driniwr honedig unrhyw anghenion o ran gofal a chymorth;
 - pa un a yw'r cam-driniwr honedig yn rhoi gofal neu gymorth i oedolyn arall sy'n wynebu risg neu blentyn a allai fod yn wynebu risg;

- yr angen i'r awdurdod lleol gydweithio'n agos gydag asiantaethau eraill a chynnwys asiantaethau eraill a fyddai o bosibl yn gallu bod o gymorth gyda'r ymholiadau a chyfrannu at gyflawni canlyniadau dynodedig yr ymholiadau;
 - yr angen i fod yn ymwybodol o halogi unrhyw dystiolaeth a allai gael ei defnyddio mewn unrhyw ymchwiliad troseddol yn awr neu yn y dyfodol;
 - pwysigrwydd cydnabod bod unrhyw ymholiadau'n gymesur ac yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac adrannau 2, 5, 6 a 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
 - galluedd meddyliol yr oedolyn sy'n wynebu risg i wneud penderfyniadau penodol os oes rheswm dros greu bod nam neu aflonyddwch ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd. Yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
96. Os penderfynir ar adeg gynnar nad yw'r oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, dylai'r ymholiadau ddod i ben. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfeirio'r person at asiantaethau neu wasanaethau eraill os yn briodol neu efallai y bydd arno angen asesiad dan adran 19 neu 24 o'r Ddeddf. Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i helpu pawb i gael mynediad at gyngor a chynhorthwy perthnasol, cywir ac amserol ynghylch ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion o ran gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 yn nodi'r holl ofynion sydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau cyngor a chynhorthwy.
97. Mae'n **rhaidd** i bartneriaid perthnasol rannu gwybodaeth fel rhan o arfer y ddyletswydd hon oni bai y byddai gwneud hynny'n anghyfreithlon.
98. Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys mewn adroddiad ar ymholiad sy'n debygol o gael ei gadw yng nghofnod achos neu asesiad unigol y person y credir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg:
- pwy yw'r unigolyn a ganfu'r pryder a'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad i gychwyn yr ymholiad;
 - pwy yw'r person y mae'r ymholiadau'n ymwneud ag ef ynghyd â'i fanylion perthnasol;
 - crynodeb o'r dystiolaeth yr oedd y 'sail resymol dros gredu' yn seiliedig arni;
 - pwy yw'r person neu'r personau ac, os yw'n berthnasol, yr asiantaeth a gynhaliodd yr ymholiadau;
 - cronoleg yr ymholiadau;
 - rhestr o bobl a ddarparodd wybodaeth yn ystod yr ymholiadau;
 - rhestr o bobl a gyfwelwyd yn ystod yr ymholiadau;
 - rhestr o dystiolaeth ddogfennol a adolygwyd yn ystod yr ymholiadau;
 - datganiad i nodi bod y rhai sy'n gwneud yr ymholiadau'n ystyried bod y person neu nad yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg. Os yw'r canfyddiad yn nodi nad yw'r oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg, dylid cynnwys datganiad sy'n egluro pam y daethpwyd i'r casgliad hwn.

99. Dylid rhoi ystyriaeth i adnabod unrhyw bryderon posibl a allai godi yn y dyfodol a'r angen am wybodaeth, cyngor a chynhorthwy;

- datganiad sy'n nodi a gynhaliwyd neu a ddylid cynnal asesiad dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os oes asesiad o'r fath wedi cael ei gynnal, dylai'r canlyniad gael ei nodi yn y cofnod;
- datganiad o ganfyddiadau'r ymholiadau a arweiniodd at y casgliad bod yr oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg (os mai dyna yw'r casgliad); dylid trosglwyddo'r rhain i'r cynllun gofal a chymorth os ystyrir bod yr oedolyn yn wynebu risg;
- cofnod o unrhyw gam-drin y gall y person fod yn ei brofi ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol gan gynnwys y canlynol:
 - natur y cam-drin;
 - am faint o amser mae'r person wedi bod yn cael ei gam-din;
 - dymuniadau a theimladau'r oedolyn sy'n wynebu risg;
 - amllder a dwyster y cam-drin;
 - y cam-driniwr honedig a'r berthynas, os o gwbl, â'r oedolyn sy'n wynebu risg;
 - effaith y cam-drin ar yr oedolyn sy'n achosi risg;
 - presenoldeb unrhyw un arall yn yr aelwyd sydd o bosibl yn oedolyn sy'n wynebu risg neu'n blentyn;
 - a yw'r cam-driniwr honedig yn rhoi gofal a chymorth i'r oedolyn sy'n wynebu risg neu i unrhyw oedolyn arall y gwyddys ei fod yn wynebu risg. Os felly, natur a dwyster gofal o'r fath;
 - natur unrhyw gymorth a chynhorthwy y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn eu cael o bosibl gan ofalwr neu berthynas ac eithrio'r cam-driniwr honedig;
 - enwau unrhyw asiantaethau eraill neu sefydliadau yn y trydydd sector sy'n ymwybodol o'r oedolyn sy'n wynebu risg neu'n gweithio gyda'r oedolyn;
 - pa bynnag faterion eraill y mae'r rhai sy'n gwneud yr ymholiadau'n ystyried y dylid eu cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.

100. Ar unrhyw adeg yn ystod yr ymholiadau gellir cychwyn asesiad o anghenion oedolyn am ofal a chymorth dan adran 19 neu 24 o'r Ddeddf os nad oes un eisoes wedi cael ei gychwyn yn gynharach yn y broses. Gall yr asesiad asesu eu risgiau yn ogystal ag anghenion ehangach yr unigolyn o ran gofal a chymorth.

101. Mae Adran 54 yn amodi bod yn **rhaid** i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol iddo ddiwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys anghenion y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol eu diwallu i amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae'n **rhaid** i gasgliadau unrhyw ymholiadau a wneir pan gredir bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg gael eu cofnodi yn y cynllun gofal a chymorth hwn.

102. Dylai'r casgliad nodi a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ai peidio a pha gamau ddylai gael eu cymryd a chan bwy.
103. Lle mae oedolyn sy'n wynebu risg wedi gwrthod cynllun gofal a chymorth dylid cofnodi canfyddiadau ymholiadau yng nghofnod yr achos unigol. Dylai'r cofnod fod yn hygyrch fel bod unrhyw hysbysiadau yn y dyfodol yn gallu croesgyfeirio at yr ymholiad.

Ymholiadau dan Adran 126 ac ymchwiliadau gan yr heddlu

104. Mae gan bawb hawl i gael ei amddiffyn gan y gyfraith a chael mynediad at gyfiawnder. Mae ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin ac esgeuluso, er enghraifft ymosodiad corfforol neu rywiol neu dreisio, cam-drin seicolegol neu drosedd casineb, esgeuluso bwriadol, carcharu anghyfreithlon, lladrad a thwyll a rhai mathau o wahaniaethu hefyd yn droseddau penodol dan ddarnau amrywiol o ddeddfwriaeth. Er mai'r awdurdod lleol sydd â'r rôl arweiniol o ran gwneud ymholiadau ynghylch achosion o gam-drin, lle ceir amheuaeth o weithgarwch troseddol, mae cynnwys yr heddlu'n gynnar yn debygol o fod o fudd ac o gadarnhau a allai ymchwiliad troseddol fod yn briodol.
105. Lle mae'n amlwg y dylai fod ymchwiliad gan yr heddlu fel rhan o ymholiad oedolyn sy'n wynebu risg, cyfarfod strategaeth ddylai fod y fforwm ar gyfer penderfynu pa gam gweithredu ddylai gael ei gymryd gan bwy ac erbyn pryd. Gellir cynnal gyfarfod o'r fath ar sail rithwir os oes cymaint o frys fel bod hynny'n angenrheidiol. Dylai'r unigolyn, ei gynrychiolwyr, ei deulu neu ofalwr gael ei weld a chael gwybod manylion y pryderon.
106. Mae ymchwiliad troseddol gan yr heddlu'n cael blaenoriaeth dros bob ymholiad arall, er y gall redeg ochr yn ochr â hwy. Dylid cytuno ar ddull amlasiantaethol i sicrhau bod buddiannau a dymuniadau personol yr oedolyn yn cael eu hystyried trwy gydol y broses, hyd yn oed os nad ydynt yn dymuno darparu unrhyw dystiolaeth na chefnogi erlyniad. Mae lles yr oedolyn ac eraill, gan gynnwys plant, o'r pwys mwyaf ac yn golygu ei bod yn ofynnol asesu risgiau'n barhaus i sicrhau bod y canlyniad yn cyd-fynd â'r hyn sydd er lles y person ac yn gwella'i lesiant.
107. Os yw'r oedolyn yn meddu ar alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'i ddiogelwch ac os nad yw am i unrhyw gamau gweithredu gael eu cymryd, nid yw hyn yn rhagwahardd rhag rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr proffesiynol perthnasol. Y rheswm dros rannu gwybodaeth yw galluogi gweithwyr proffesiynol i asesu'r risg o niwed i'r unigolyn ac i eraill a bod yn hyderus nad oes dylanwad gormodol ar yr oedolyn, ac nad yw'n cael ei orfodi nac yn cael ei fygwth a'i fod yn ymwybodol o'r holl opsiynau. Bydd hyn hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i wirio diogelwch a dilysrwydd penderfyniadau a wneir. Mae'n arfer da hysbysu'r oedolyn bod y cam hwn yn cael ei gymryd oni bai y byddai gwneud hynny'n cynyddu'r risg o niwed.

Camau Gweithredu Yn Dilyn Ymholiad

108. Unwaith y mae ymholiadau wedi cael eu cwblhau dylid hysbysu'r awdurdod lleol a phartneriaid perthnasol ynghylch y canlyniad. Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r

cyfrifoldeb am benderfynu pa ymholiadau pellach, os o gwbl, y mae eu hangen neu ba gam gweithredu ellid ei gymryd, sy'n angenrheidiol ac yn dderbyniol i'r unigolyn.

109. Gellir dod ag ymholiadau dan Adran 126 i ben unrhyw bryd lle mae'r awdurdod lleol wedi'i argyhoeddi bod digon o wybodaeth i benderfynu a ddylai unrhyw gamau gweithredu gael eu cymryd (boed dan Ddeddf 2014 neu fel arall) ac, os felly, beth a chan bwy. Dylai'r penderfyniad o ran pa gamau gweithredu pellach sy'n angenrheidiol neu'n dderbyniol gael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r unigolyn bob amser oni bai bod rhesymau cyfiawnadwy dros beidio â gwneud hynny megis lle ceir risg i eraill.

Anghytundebau rhwng ymarferwyr

110. Lle gwneir penderfyniad i beidio â gweithredu ar hysbysiad yn unol â gweithdrefnau diogelu:

- Dylai'r ymarferwyr sy'n gwneud yr hysbysiad gael eu hysbysu; ac
- Os ydynt yn anghytuno â'r penderfyniad ac yn methu â datrys y mater yna dylid hysbysu rheolwr ynghylch yr achos neu hysbysu yn ei gylch trwy brotocol uwchgyfeirio pryderon yr awdurdod

At ddibenion y canllawiau hyn cymerir bod hysbysiad i'r gwasanaethau cymdeithasol yn golygu atgyfeiriad hefyd.

Penderfyniad 1: - Amddiffyn ar unwaith

111. Ceir adegau (yn enwedig lle mae achosion eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau eraill) lle mae'r wybodaeth yr hysbyswyd yn ei chylch yn nodi bod angen amddiffyn oedolyn neu eraill gan gynnwys plentyn (gan gynnwys plentyn heb ei eni), plant neu oedolion ar unwaith.
112. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i asiantaethau â'r pwerau amddiffyn statudol perthnasol (gwasanaethau cymdeithasol, neu'r heddlu) neu â chyfrifoldeb am wasanaethau (gwasanaethau iechyd, brys) weithredu'n gyflym i sicrhau diogelwch uniongyrchol yr unigolyn ac eraill.
113. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiad dan Ran 3 o Ddeddf 2014 yn cael ei gynnal a bod cynllun gofal a chymorth yn cael ei sefydlu. Dylai canlyniadau'r ymholiadau gael eu cofnodi yn y cynllun gofal a chymorth.

Penderfyniad 2: - nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ond gall fod ganddo anghenion eraill am wasanaethau gofal a chymorth

114. Os penderfynir, ar unrhyw adeg, nad yw'r oedolyn dan sylw yn oedolyn sy'n wynebu risg, mae dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol dan adran 126 o Ddeddf 2014 yn dod i ben. Dan yr amgylchiadau hyn dylai'r unigolyn gael ei gynghori fel y byddai ar gyfer unrhyw atgyfeiriad arall gan gydnabod y gallai fod angen atgyfeirio'r person at asiantaethau neu wasanaethau eraill os yn briodol neu gall fod angen asesiad arno dan adran 19 neu 24 o'r Ddeddf.
115. Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i helpu pawb i gael mynediad at gyngor a chynhorthwy perthnasol, cywir ac amserol ynghylch ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion o ran gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.
116. Mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn lle ymddengys i'r awdurdod y gall fod gan yr unigolyn anghenion am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr. Dan yr amgylchiadau hyn byddai unrhyw ymwneud parhaus â'r gwasanaethau cymdeithasol yn digwydd ar sail cydsyniad yr unigolyn.
117. Beth bynnag fo'r ffrâm amser ar gyfer asesiad, lle canfyddir anghenion penodol ar unrhyw adeg ni ddylai gweithwyr cymdeithasol ddisgwyl nes bod yr asesiad wedi'i gwblhau cyn darparu gwasanaethau i gefnogi'r unigolyn. Ym mhob sefyllfa dylai'r asesiad fod yn ymatebol i'r amgylchiadau newidiol a gellir oedi, os oes angen, i ganfod effaith gwasanaethau ataliol, megis ailalluogi, ar gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn.

Penderfyniad 3: - Oedolyn sy'n wynebu risg ac angen camau gweithredu i'w amddiffyn

118. Cytuno ar gamau gweithredu gan daro cydbwysedd ag ystyriaethau ehangach o ran diogelwch
119. Mae'n hollbwysig bod gan yr oedolyn sy'n wynebu risg reolaeth ar benderfyniadau ynglŷn â'r modd y caiff risgiau eu rheoli, yn amodol ar asesiad trylwyr o gymhwysedd. Dylai'r camau diogelu adlewyrchu natur a difrifoldeb y risg a, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, dylent gynorthwyo'r person i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir ganddo. Dylai unrhyw gynllun gofal a chymorth sy'n effeithio ar lesiant yr unigolyn gael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r unigolyn, gan ystyried ei ganlyniadau personol ac effaith y cynllun ar ei ffordd o fyw a'i annibyniaeth. Gall hyn gynnwys camau gweithredu y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn eu cymryd, yn ogystal â chamau gweithredu'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill.
120. Lle mae asesiad ffurfiol wedi cadarnhau nad oes gan berson alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am ei ddiogelwch ei hun, dylai penderfyniadau ynghylch trefniadau amddiffynnol gael eu gwneud er budd pennaf y person gan ystyried ei ddymuniadau, ei deimladau, ei ddaliadau a'i werthoedd ac yn unol â darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig.
121. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i asiantaethau a chyrff cyhoeddus ragdybio bod gan oedolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad nes bod rheswm dros gredu bod y galluedd wedi'i beryglu mewn rhyw ffordd. Yr oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch ei lesiant a allai gynnwys cymryd rhai risgiau. Os oes gan yr oedolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ynghylch yr agwedd hon ar ei fywyd a'i fod yn gwrthod cynhorthwy, gall hyn gyfyngu ar yr ymyraethau y gall sefydliadau eu darparu. Felly, dylai'r ffocws fod ar leihau niwed. Fodd bynnag, ni ddylai gyfyngu ar y cau gweithredu a all fod yn ofynnol i amddiffyn eraill sydd mewn perygl o niwed.
122. Lle mae gan yr oedolyn sy'n wynebu risg
- a) y galluedd meddyliol i wneud dewisiadau deallus am ei ddiogelwch ei hun;
a
 - b) lle nad oes ystyriaethau o ran budd y cyhoedd na budd hollbwysig; ac
 - c) lle mae'n dewis byw mewn sefyllfa lle mae risg posibl neu lle mae wedi gwrthod cynllun gofal a chymorth.
123. Dylai canfyddiadau ymholiadau o'r fath gael eu cofnodi'n glir ar gofnod achos yr unigolyn a chynnwys y trefniadau amddiffyn a gynigiwyd a'r gwaith a wnaed i ddeall y rhesymau dros beidio â derbyn cymorth. Mae'n bwysig bod y cofnod o'r ymholiad yn hygyrch ac nad yw'n cael ei golli am nad yw wedi'i atodi wrth gynllun gofal a chymorth.

124. Trwy gydol unrhyw ymateb mae angen ystyried diogelwch a llesiant eraill; gall hyn fod y bobl hynny sy'n byw yn yr un cartref teuluol, y rhai sydd yn yr un amgylchedd gofal neu aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig i bryderon

125. Dan rai amgylchiadau bydd yr wybodaeth sydd ar gael neu sy'n deillio o ymholiadau gan awdurdod lleol dan adran 126 yn dynodi bod angen ymateb amlasiantaethol ehangach i'r pryderon. Bydd galw am gamau cydgysylltiedig o'r fath lle mae unrhyw ffactorau neu bryderon o blith y canlynol yn bresennol, ond nid dim ond dan yr amgylchiadau hynny:

- cam-drin sefydliadol;
- pryderon ynghylch diogelwch gwasanaeth i barhau i weithredu;
- pryderon y gallai sawl unigolyn wynebu risg;
- honiadau ynghylch cam-drin neu esgeuluso mewn perthynas â 'pherson mewn swydd gyfrifol';
- lle gellid cymryd camau gweithredu ffurfiol neu gyfreithiol mewn perthynas â'r sawl yr honnir ei fod wedi achosi niwed;
- mae sawl asiantaeth yn debygol o fod yn rhan o ymholiad;
- gall fod angen camau cyfreithiol neu reoleiddiol eraill;
- mae un aelod o staff neu fwy yn gysylltiedig â'r niwed honedig/wedi'u hatal o'u gwaith;
- mae angen cael eglurhad o statws cyflogaeth un unigolyn neu fwy; bydd hyn yn bwysig o ran gwasanaethau wedi'u personoli gan gynnwys pobl a gyflogir trwy daliadau uniongyrchol.
- honiadau ynghylch cam-drin hanesyddol sydd fel arfer o natur drefnedig neu luosog a'r goblygiadau gan gynnwys goblygiadau unrhyw gyswllt parhaus ag oedolion neu blant.

126. Bydd camau gweithredu a gydgysylltir yn briodol yn aml yn cyflawni mwy na chywres o brosesau ymholi neu ymchwilio ar wahân. Bydd yn sicrhau bod gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu rhannu; mae'r arfer o ailadrodd cyfweiliadau'n cael ei osgoi a bydd yn achosi llai o drallod i'r sawl sydd wedi cael ei gam-drin o bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob asiantaeth weithredu yn unol â'i dyletswydd pan fo wedi'i hargyhoeddi bod y cam gweithredu'n briodol. Er y gall fod camau gweithredu ar y cyd, mae'n rhaid i'r wybodaeth a rennir gael ei gwerthuso'n gyson a'i hadolygu gan bob asiantaeth.

Cyfarfod Strategaeth

127. Mae Cyfarfod Strategaeth yn dilyn yr ymholiad a chyfarfod amlasiantaethol i drafod natur yr atgyfeiriad a chytuno ar ymateb yn enwedig pan fo'r ymholiadau'n cadarnhau y credir bod yr oedolyn yn wynebu risg ydyw.

128. Gall hwn fod ar ffurf trafodaeth dros y ffôn neu gyfarfod lle mae pawb yn bresennol yn yr un lleoliad ond mae'n rhaid cadw cofnod ni waeth ar ba ffurf y mae na faint o bobl sy'n cymryd rhan. Bydd yn cael ei gynnal o fewn 7 niwrnod gwaith i gwblhau ymholiad.
129. Mae pedwar diben i Gyfarfod Strategaeth:
- rhannu gwybodaeth;
 - ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad ac yn arbennig lefel y risg;
 - sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gwblhau;
 - penderfynu ar ddull gweithredu.
130. Wrth gynllunio unrhyw ymholiad neu ymchwiliad bydd y cyfarfod strategaeth yn ystyried priodolau a chyfrifoldebau sefydliadau, tasgau penodol sy'n ofynnol, materion o ran cydweithredu, cyfathrebu a'r defnydd gorau o sgiliau, arbenigedd ac adnoddau.
131. Dylai cyfarfod strategaeth gytuno sut y bydd unrhyw wybodaeth ofynnol yn cael ei cheisio, a phwy fydd yn gyfrifol am yr amryw weithgareddau. Dylai partneriaid perthnasol gytuno ar gynllun ar ddiwedd cyfarfod strategaeth i gytuno ar feysydd megis:
- y pryderon neu'r honiadau y bwriedir rhoi sylw iddynt
 - camau gweithredu ym mhob asiantaeth a sut y byddant yn cael eu cydgysylltu megis:
 - ymholiadau pellach
 - ymchwiliadau troseddol a arweinir gan yr heddlu
 - ymchwiliad a arweinir gan y gwasanaethau ieuchyd
 - gweithdrefnau disgyblu a arweinir gan y cyflogwr
 - achos o dorri rheoliadau, arolygiad gan y corff rheoleiddio perthnasol
 - cynnwys, cefnogi ac anghenion cyfathrebu unrhyw oedolyn sy'n wynebu risg a'r person neu'r sefydliad yr honnir ei fod wedi achosi niwed
 - rheoli risgiau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael na'i roi mewn sefyllfa lle mae'n wynebu risg ac nad yw ymchwiliadau'n cael eu peryglu.
 - dyddiadau ar gyfer adrodd, cwblhau a'r camau nesaf.
132. Er ei bod yn hollbwysig bod penderfyniadau ynghylch trefniadau diogelu'n cael eu gwneud mewn partneriaeth gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg mae'n hanfodol bod unrhyw ymholiad neu ymchwiliad ffurfiol yn deg â phawb ac yn wrthrychol i bawb ac yn ymddangos felly. Dylid gwneud pob ymdrech i egluro diben unrhyw ymholiadau ac ymchwiliadau wrth yr oedolyn sy'n wynebu risg, i ganfod beth yw eu pryderon. Dylai'r hyn yr hoffent iddo ddiwydd a'r canlyniadau personol y maent yn dymuno'u cyflawni oleuo penderfyniadau sy'n berthnasol iddynt hwy. Dylid wastad ystyried anghenion cymorth oedolyn sy'n wynebu risg i alluogi'r person i gyfranogi mewn prosesau penderfynu perthnasol. Mae'n **rhaid** i'r

cyfarfod strategaeth benderfynu pwy fydd yn cynnal cyswllt â'r oedolyn sy'n wynebu risg, a'i deulu, ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed neu sy'n ofynnol a pha drefniadau, os o gwbl, y mae'n rhaid eu gwneud i sicrhau diogelwch ymarferwyr.

Ymchwiliad

133. Proses strwythuredig ar gyfer cydweithrediad amlasiantaeth, i gasglu tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad ar ôl ystyried a achoswyd risg i bobl, neu a ydynt yn dal i wynebu risg, yw ymchwiliad diogelu. Gall gynnwys nifer o asiantaethau a chanddynt o bosibl fuddiannau ychwanegol yn yr ymchwiliad, a dibenion ychwanegol yn deillio ohono; er enghraifft gorfodi'r gyfraith neu gydymffurfiaeth gytundebol.
134. Dylai tystiolaeth o'r ymchwiliad gael ei chyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig ar yr ymchwiliad i'r gynhadledd amddiffyn oedolion

Cynhadledd Amddiffyn Oedolion

135. Dylid cynnal Cynhadledd ar ôl yr ymchwiliad.
136. Cyfarfod amlasiantaeth sy'n cynnwys yr unigolyn, a phobl eraill berthnasol, fel y bo'n briodol, ac a gynhelir i rannu a thrafod canlyniad yr ymchwiliad a chytuno ar y cynllun gofal a chymorth ac unrhyw gamau gweithredu pellach yw Cynhadledd Achos.


Adolygiadau a Therfynu

137. Dylai'r cynllun gofal a chymorth gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr holl risg yn cael ei waredu, neu ei reoli, a bod anghenion o ran gofal a chymorth yn cael eu diwallu. Dylai'r adolygiad ddilyn y broses a nodir dan Ran 4 o'r Ddeddf.

Cwynion

138. Dylai fod gan bob awdurdod lleol weithdrefn gwynion ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â phroses amlasiantaethol, **megis cynhadledd amddiffyn oedolion**. Dylai'r broses gwynion fynd i'r afael â natur amlasiantaethol proses yn hytrach na'r gŵyn yn erbyn camau gweithredu un asiant y dylid ymdrin â hi trwy ei weithdrefn gwynion ei hun.

Siart Lif 1: Hysbysu ynghylch Oedolyn sy'n Wynebu Risg



¹⁴ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a19 Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth

¹⁵ Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: www.CSSIW.org.uk

¹⁶ Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: www.HIW.org.uk

¹⁷ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a128 (1) Dyletswydd i hysbysu ynghylch oedolion sy'n wynebu risg


¹⁸ Cymerir bod hysbysiad i'r gwasanaethau cymdeithasol yn golygu atgyfeiriad hefyd.

¹⁹ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a126 (2) Dyletswydd i wneud ymholiadau

Adborth: Rhaid i wrthrych yr adroddiad a/ neu ei gynrychiolydd gael ei hysbysu'n briodol ynghylch yr hysbysiad a'r penderfyniad sy'n deillio ohono.

Siart Lif 2: Dyletswydd i wneud Ymholiadau

Asesiad ar gyfer Gofal a Chymorth²⁰: gellir cychwyn asesiad o anghenion oedolion unrhyw bryd, os nad yw wedi cael ei ddechrau yn gynharach yn y broses.



²⁰ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a19 Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth

²¹ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a126 (2) Dyletswydd i wneud ymholiadau

²² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a17 Dyletswydd i sicrhau gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Yn dilyn yr ymholiad os nad oes achos rhesymol dros gredu bod yr oedolyn yn wynebu, neu y gallai fod yn wynebu risg:
Ymchwiliad. I ddod i gasgliad pa un a achoswyd i bobl wynebu risg, neu pa un a ydynt yn wynebu risg yn barhaus. **Gweler Siart Lif 3: Ymchwiliad Ffurfiol**

Siart Lif 3: Ymchwiliad Ffurfiol

Cyfarfod Strategaeth²³ - O fewn 7 diwrnod gwaith i gwblhau'r ymholiad
Amlasiantaeth i gytuno ar yr ymateb a'r cam gweithredu i'w gymryd.

Pennu'r cam gweithredu i'w gymryd

Penderfyniad 1: Amddiffyn ar Unwaith

Symud yr unigolyn i ffwrdd o'r risg uniongyrchol
v
Cyfarfodydd strategaeth pellach
(fel y bo angen)
v
Cynhadledd achos
Cytuno ar Ofal a Chymorth
v
Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth dan Ran 4
(fel y bo angen)
v
Adolygu a Chau

Penderfyniad 2: Nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ond gall fod ganddo anghenion eraill am wasanaethau gofal a chymorth

Hysbysu'r unigolyn bod dyletswyddau dan adran 126 o'r Ddeddf yn dod i ben
v
Aseiad dan Ran 3 o Ddeddf 2014 (fel y bo'n briodol)
v
Cynllun Gofal a Chymorth dan Ran 4
v
Adolygu

Penderfyniad 3: Oedolyn sy'n wynebu risg ac angen camau gweithredu i'w amddiffyn

Cyfarfodydd strategaeth pellach
(fel y bo angen)
v
Cynhadledd achos
Cytuno ar Ofal a Chymorth
v
Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth dan Ran 4
(fel y bo angen)
v
Adolygu a Chau

Adolygu a Chau

Ymchwiliad Troseddol: Mae'n Cael Blaenoriaeth: Gall gydredeg ag ymchwiliad gan y gwasanaethau cymdeithasol.

²³ Gall cyfarfod strategaeth gael ei alw'n drafodaeth strategaeth hefyd ond dylid cymryd mai'r un ystyr sydd i'r ddau.

Y person yr honnir ei fod yn gyfrifol am gam-drin neu esgeuluso

139. Pan fo cwyn neu honiad wedi cael ei (g)wneud yn erbyn aelod o staff, gan gynnwys pobl a gyflogir gan y defnyddiwr gwasanaethau, dylid ei wneud yn ymwybodol o'i hawliau dan ddeddfwriaeth cyflogaeth ac unrhyw weithdrefnau disgyblu mewnol.
140. Os oes gan y person yr honnir ei fod wedi cam-drin anghenion o ran gofal a chymorth ei hun ac os nad yw'n gallu deall arwyddocâd cwestiynau a ofynnir iddo neu ei ymatebion, dylai gael ei sicrhau o'i hawl i gymorth gan oedolyn 'priodol' os caiff ei holi mewn perthynas â throedd y credir iddo gael ei gyflawni gan yr heddlu dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE). Efallai y bydd ar ddioddefwyr troseddau a thystion angen cymorth oedolyn 'priodol' hefyd.
141. Lle mae person heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol a lle honnir ei fod yn gyfrifol am gam-drin, mae gan gyrff cyfrifol bwerau i gyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EAGM) i gefnogi a chynorthwyo'r person hwnnw. Caiff y ddarpariaeth gyfreithiol hon ei nodi'n llawn yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a Rheoliadau Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (Cymru) 2007²⁴.
142. Dylai'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron gytuno ar weithdrefnau gyda'r awdurdod lleol, darparwyr gofal, darparwyr tai, a Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer y sefyllfaoedd canlynol:
- camau gweithredu tra bo canlyniad ymchwiliadau'r heddlu a'r cyflogwr yn yr arfaeth
 - camau gweithredu yn dilyn penderfyniad i erlyn unigolyn
 - camau gweithredu yn dilyn penderfyniad i beidio ag erlyn
 - camau gweithredu tra bo achos llys yn yr arfaeth
 - ymatebion i ryddfarn ac euogfarn
143. Mae gan gyflogwyr sydd hefyd yn ddarparwyr neu gomisiynwyr gofal a chymorth nid yn unig ddyletswydd tuag at yr oedolyn, ond hefyd cyfrifoldeb i weithredu mewn perthynas â'r cyflogai pan wneir honiadau am gam-drin yn ei erbyn. Dylai cyflogwyr sicrhau bod eu gweithdrefnau disgyblu'n gydnaws â'r cyfrifoldeb i amddiffyn oedolion sy'n wynebu perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
144. O ran cam-drin, esgeuluso a chamymddwyn mewn perthynas broffesiynol, dylid dilyn codau ymddygiad proffesiynol a/neu gontractau cyflogaeth a'r rhain ddylai bennu'r camau gweithredu y gellir eu cymryd. Mae arferion cyflogaeth cadarn, gyda geirdaon y gellir eu gwirio a gwiriadau diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yn bwysig. Dylid ymchwilio i hysbysiadau ynghylch cam-drin, esgeuluso a chamymddwyn a chasglu tystiolaeth.
145. Lle y bo'n briodol, dylai cyflogwyr hysbysu'r corff statudol a chyrrff eraill sy'n gyfrifol am reoleiddio proffesiynol megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r

²⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/852/regulation/9/made>

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch gweithwyr. Os caiff rhywun ei symud o'i rôl o ran darparu gweithgaredd a reoleiddir yn dilyn digwyddiad diogelu mae dyletswydd gyfreithiol ar y darparwr gweithgareddau a reoleiddir (neu os darparwyd y person gan asiantaeth neu gyflenwr personél, ar yr asiantaeth honno neu'r cyflenwr hwnnw y mae'r ddyletswydd gyfreithiol) ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn berthnasol lle mae person yn gadael ei rôl i osgoi gwrandawriad disgyblu yn dilyn digwyddiad diogelu a lle mae'r cyflogwr/sefydliad gwirfoddolwyr yn teimlo y byddai wedi diswyddo'r person yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddelir ganddo.

146. Y safon profi ar gyfer erlyn yw 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'. Y safon profi ar gyfer gweithdrefnau disgyblu mewnol ac ar gyfer ystyried gwahardd yn ôl disgrisiwn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel arfer yw'r safon sifil 'ar sail cydbwysedd tebygolrwydd'. Ystyr hyn yw nad yw dirwyn gweithdrefnau troseddol i ben heb gymryd camau gweithredu yn golygu'n awtomatig y dylai gweithdrefnau rheoleiddio neu ddisgyblu ddod i ben neu beidio â chael eu hystyried. Sut bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol i wneud atgyfeiriad diogelu at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os caiff person ei ddiswyddo neu ei symud o'r rôl oherwydd niwed i blentyn neu oedolyn agored i niwed.